# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 5 E+W

DARPARIAETH ATODOL

## PENNOD 4 E+W

COSBAU O DAN Y DDEDDF HON

*Cosbau sy'n ymwneud â chofrestru*

### 64 Cosbau am gyflawni gweithrediadau trethadwy heb fod yn gofrestredig E+W

(1) Mae person sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy yn groes i adran 35(1) (dyletswydd i fod yn gofrestredig) yn agored i gosb o £300.

(2) Os yw person yn parhau i gyflawni gweithrediadau trethadwy yn groes i adran 35(1) ar ôl diwedd y cyfnod cosbi cychwynnol, mae'r person yn agored i gosb bellach neu gosbau pellach nad ydynt yn fwy na £60 ar gyfer pob diwrnod y mae'r person yn parhau i wneud hynny.

(3) Y cyfnod cosbi cychwynnol yw'r cyfnod o 10 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir hysbysiad i'r person am y gosb o dan is-adran (1).

(4) Wrth gyfrifo'r cyfnod cosbi cychwynnol, rhaid diystyru unrhyw ddiwrnod y mae penderfyniad sy'n ymwneud â'r gosb o dan is-adran (1) yn destun—

- (a) adolygiad nad yw hysbysiad am ei gasgliadau wedi ei ddyroddi hyd yma, neu
- (b) apêl nad yw wedi ei dyfarnu'n derfynol neu ei thynnu'n ôl hyd yma.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 64. (See end of Document for details)*

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 64 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 64 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 64.